



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Police and Crime Commissioner
South Wales



COFNOD PENDERFYNIADAU COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU – mis Medi 2022 i fis Ebrill 2023

DYDDIAD	CAIS AM BENDERFYNIAD	GWYBODAETH ATEGOL	CYMERADWYWYD/GWRTHODWYD
03/04/2023	Rôl y Cydlynnydd Camu i'r Campau	Cais am gyllid er mwyn cyflawni Cam 3 o'r Prosiect Camu i'r Campau yn seiliedig ar ganlyniadau cadarnhaol a dderbyniwyd eisoes ac i archwilio'r camau nesaf i ystyried trefniadau ariannu tymor hwy.	Cymeradwywyd
23/02/2023	Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Gorfodi'r Gyfraith	Cynhadledd Ewropeaidd ar Orfodi'r Gyfraith ac Iechyd Cyhoeddus i'w chynnal yn Sweden rhwng 21-24 Mai 2023. Mae ymgysylltu â'r digwyddiadau hyn yn galluogi dysgu ar y cyd ar lwyfan rhyngwladol ac yn tynnu ar y gwaith arloesol sy'n cael ei gyflwyno ar draws y byd. Goblygiadau ariannol ar gyfer presenoldeb £3,600.	Cymeradwywyd
21/02/2023	Hyfforddiant Gwybodaeth Busnes Pŵer	Cais am £1,026 er mwyn i dîm Cudd-wybodaeth Busnes Heddlu De Cymru ddarparu'r porth Cudd-wybodaeth Busnes ar fewnwyd Heddlu De Cymru. Mae manteision hyfforddi'r dadansoddwyr data i'w defnyddio ar draws darpariaethau strategol amrywiol	Cymeradwywyd



		yn caniatáu mwy o amser ac arbedion effeithlonrwydd i'r aelodau.	
01/02/2023	Mela Amlddiwylliannol Caerdydd 2023	Mae'r Mela, sydd yn ei nawfed flwyddyn, yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddiwylliannau, cerddoriaeth, dawnys, celfyddydau, ffasiwn a bwyd yn ogystal â chynnal gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned leol. Nod yr ŵyl, ddydd Sul, 4 Mehefin, yw addysgu, rhannu a dathlu pob diwylliant ac mae'n gyfle gwych i'n Tîm ymgysylltu â'r gymuned drwy waith partneriaeth a gweithgareddau ymgysylltu. Pecyn nawdd yn costio £875.	Cymeradwywyd
01/02/2023	Gwaith cwmpasu ar gyfer "Camu i'r Gerddoriaeth"	Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â'r Comisiynydd i ddatblygu cyfres o raglenni celfyddydol, wedi'u cynllunio i fod yn brosiectau dargyfeiriol effeithiol i bobl ifanc sydd naill ai yn y system cyfiawnder troseddol, neu sydd mewn perygl o hynny. Cyllid o £3,000.	Cymeradwywyd
24/01/2023	Cymorth Cynnar i Oedolion Rhondda Cynon Taf	Cais am £9,000 i dalu am y diffyg cyllid i barhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn tan 31 Mawrth 2023. Mae gwasanaeth Cymorth Cynnar i Oedolion Rhondda Cynon Taf yn dangos ffordd effeithiol ac effeithlon o gefnogi llesiant oedolion.	Cymeradwywyd

16/01/2023	Adolygiad Annibynnol o Raglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru	Ariennir ar hyn o bryd gan y pedwar Heddlu a Llywodraeth Cymru. Bydd Adolygiad sydd ei angen i ddangos gwerth am arian wrth symud ymlaen yn galluogi argymhellion pellach i gael eu gwneud a fydd yn cael effaith gadarnhaol ac yn dylanwadu ar ddiogelu'r bobl ifanc. Cyfraniad arfaethedig o £2,470.	Cymeradwywyd
19/12/2022	Asesu Anghenion Dioddefwyr	Cais i sicrhau cytundeb a chymorth ariannol i gynnal Asesiad o Anghenion Dioddefwyr. Rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau cynnal Asesiad o Anghenion Dioddefwyr bob pedair blynedd er mwyn deall anghenion dioddefwyr lleol a darparu gwasanaethau'n lleol.	Cymeradwywyd
16/12/2022	Cynllun Gwrth-hiliol	Cyhoeddwyd cynllun gweithredu Gwrth-hiliol y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ar 8 Medi 2022, gan amlinellu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer system cyfiawnder troseddol gwrth-hiliol gyda dull system gyfan drwy wahanol ymrwymadau a chamau gweithredu. Er mwyn galluogi i hyn fwrw ymlaen i gomisiynu ymgynghorydd penodedig i ymchwilio, a datblygu polisi ac ymarfer ar sail Cymru Gyfan. Cyllid arfaethedig o £20,000.	Cymeradwywyd
16/12/2022	Gwerth Cymdeithasol a'r Economi Sylfaenol	Cefnogi gweithdy ar gaffael a gwerth cymdeithasol, yn y modd rydym yn cynnal busnes ac yn caffael nwyddau a gwasanaethau. Mae cynnig o £4,000 wedi'i gyflwyno gan Cwmpas i gynnal gweithdy ar Newid Economaidd a Chymdeithasol.	Cymeradwywyd

08/12/2022	Ymgyrch Gyrru dan ddylanwad Alcohol a Chyffuriau	Cyfraniad o £10,000 i ymgyrch alcohol a chyffuriau ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mynd i'r afael â'r peryglon a'u hamlygu, a gefnogir gan ymgyrch effeithiol yn y cyfryngau.	Cymeradwywyd
29/11/2022	Camddefnyddio Pŵer, Ymddiriedaeth a Hyder	Cymeradwyo cyllid ar gyfer dwy rôl newydd sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth ac sy'n helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder trwy fynd i'r afael â materion yn ymwneud â Stelcio a Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	Cymeradwywyd
29/11/2022	Sesiwn Iywodraethu ar gyfer y Panel Goruchwyllo a Chynghori Annibynnol	Cais am £1,500 ar gyfer sesiwn sefydlu ar gyfer y Panel Goruchwyllo a Chynghori Annibynnol ar ddiweddariadau llywodraethu ac arfer da.	Cymeradwywyd
24/11/2022	Gwefan	Cais am gyllid o £7,500 ar gyfer y cyfnod darganfod er mwyn adolygu gwefan y Comisiynydd. Bydd hyn yn darparu agwedd gytbwys a chynhwysfawr at ei ddatblygiad.	Cymeradwywyd
18/11/2022	Ail-gomisiynu Dull System Gyfan Pathfinder Merched a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25	Fel rhan o ymarfer comisiynu Cymru gyfan i gefnogi menywod yn y carchar i gadw cysylltiad â'u plant a chreu rhywfaint o gysondeb. Mae hwn yn ymrwymiad parhaus ar gyfer cyfraniad ariannol.	Cymeradwywyd
10/11/2022	Digwyddiad Stopio a Chwilio	Cais cyllideb o £1,000 ar gyfer digwyddiad partner/llu ar y cyd a noddir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar destun anghymesuredd stopio a chwilio.	Cymeradwywyd
08/11/2022	Cyfraniad i Gydlynnydd Busnes Cymru Gyfan	Bydd y rôl hon yn helpu i gefnogi'r galw cynyddol ar nifer y Rhaglenni Cymru Gyfan ac i dalu cyfran gyfartal o'r costau â Chomisiynwyr eraill Cymru o £15,625.	Cymeradwywyd

31/10/2022	Cymeradwyaeth barhaus o'r Gyllideb ar gyfer y Rhaglen Recriwtio a Datblygu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	Gofynnir i'r Comisiynydd gefnogi'r rhaglen gweithredu cadarnhaol barhaus sy'n annog pobl i ddod i mewn i'r sefydliad, gyda'r un mewnbwn ariannol ar gyfer 2022-23 â'r flwyddyn flaenorol.	Cymeradwywyd
28/10/2022	Rheolwr Gweithredu Hil Cyfiawnder Troseddol	Cais am gyllid i gefnogi 50% o rôl Rheolwr Gweithredu Hil Cyfiawnder Troseddol sy'n cefnogi gwaith parhaus i fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol, urddas a pharch yng Nghymru.	Cymeradwywyd
19/10/2022	Cyllid i'r Cydlynnydd Camu i'r Campau	Cais am flwyddyn ychwanegol o gyllid ar gyfer prosiect Camu i mewn i Chwaraeon sy'n dod â manteision parhaol i'r plant a'r bobl ifanc difreintiedig yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt.	Cymeradwywyd
19/10/2022	Hyfforddiant Urddas a Pharch ACAS	Cefnogi hyfforddiant i ddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth o bynciau pwysig ar gyfer y tîm cyfan am £1,800.	Cymeradwywyd
27/09/2022	Nawdd i Race Council Cymru ar gyfer Hanes Pobl Dduon Cymru	Er mwyn helpu i gefnogi pecyn nawdd gwerth £3,500 a ddarperir drwy gydol y flwyddyn fel rhan o Hanes Pobl Dduon Cymru 365 gyda'r thema ar gyfer 2022 Pobl Ifanc - Nawr yw'r Amser.	Cymeradwywyd